# COWBRIDGE MUSIC FESTIVAL

16-25 September/Medi 2022

**www.cowbridgemusicfestival.co.uk**



Image: Elena Urioste © Alessandra Tinozzi

powell.
creating working environments

# THE 2022 COWBRIDGE MUSIC FESTIVAL PROGRAMME

## THE URIPOSTE JUKEBOX (A)

**Friday 16th September, 7pm**
**Holy Cross Parish Church**

Sponsored by Cowbridge Travel

Our 2022 festival opens with Tom Poster and Elena Urioste, winners of the Royal Philharmonic Society's Inspiration Award and BBC Music Magazine Premiere Award. The duo presents their trademark eclectic selection of music, ranging from Mozart and Fauré to Tom's arrangements of '80s hits!

## BY CANDLELIGHT: LAURA VAN DER HEIJDEN (B)

**Friday 16th September, 9.30pm**
**Holy Cross Parish Church**

Since becoming BBC Young Musician of the Year in 2012, cellist Laura van der Heijden has gone on to establish a reputation as one of the most exciting cellists of her generation. In this concert she performs one of Bach's most loved solo suites for cello, together with works by Imogen Holst and Coleridge-Taylor Perkinson.

## KIZZY CRAWFORD (C)

**Saturday 17th September, 5pm**
**United Free Church**

Featured on BBC Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 and Radio Cymru, Kizzy Crawford's unique brand of soul-folk jazz has received wide acclaim. A Welsh speaker with Bajan heritage, Kizzy will sing in both Welsh and English, performing some of her most popular works.

## KALEIDOSCOPE CHAMBER COLLECTIVE (A)

**Saturday 17th September, 7pm**
**Holy Cross Parish Church**

Associate Ensemble at Wigmore Hall, the 'sparky, shape-shifting ensemble of starry young musicians' (TheArtsDesk) that make up the Kaleidoscope Chamber Collective bring a programme that combines celebrated piano quartets by Mozart and Dvořák with exciting works by Fanny Mendelssohn and Errolyn Wallen.

## LLŶR WILLIAMS (A)

**Sunday 18th September, 5pm**
**Holy Cross Parish Church**

Sponsored by Tidy Translations

In 1922, Béla Bartók made his UK debut as a pianist–not in one of London's celebrated concert halls, but in Aberystwyth Parish Hall. Beloved Welsh pianist Llŷr Williams returns to Cowbridge this year with a programme that celebrates the centenary of this event, pairing a number of Bartók's works with music by Chopin, Grieg, Liszt and others.

## MUSIC FROM AFGHANISTAN (C)

**Wednesday 21st September, 7.30pm**
**Cowbridge Town Hall**

Saphwat Simab and Shahbaz Hussain will provide a fascinating and moving programme that showcases music from Afghanistan. These leading musicians have been performing to great acclaim across the UK over the past year, and tonight will make their Cowbridge debut.

## CHARLIE LOVELL-JONES & ARIEL LANYI - YOUNG ARTISTS' RECITAL (B)

**Thursday 22nd September, 7.30pm**
**Holy Cross Parish Church**

Sponsored by Cowbridge Rotary

This year's Young Artists' Recital unites two rising stars–Welsh violinist Charlie Lovell-Jones and Israeli-born pianist Ariel Lanyi. The duo performs a rich programme of sonatas by Grieg, Debussy and Beethoven, together with some short pieces by Sibelius and Charlie's own arrangement of Bugeilio'r Gwenith Gwyn.

## NATALYA ROMANIW & MICHAEL POLLOCK (A)

**Friday 23rd September, 7pm**
**Holy Cross Parish Church**

Sponsored by Richard H. Powell and Partners Limited

Welsh-Ukrainian soprano Natalya Romaniw and pianist Michael Pollock join forces for a performance of heartfelt songs by Dvořák, Grieg, Strauss, Rachmaninoff and others. Hailed as 'the outstanding soprano of her generation' (The Telegraph), Natalya Romaniw performs across the world; for this concert she returns to Wales to make her Cowbridge debut.

## BY CANDLELIGHT: GWENLLIAN LLŶR (B)

**Friday 23rd September, 9.30pm**
**Holy Cross Parish Church**

Sponsored by Tŷ Cerdd

For this intimate, candlelit recital, Welsh harpist Gwenllian Llŷr performs a number of works from her new recording 'Soliloquy'. As well as Welsh folk tunes, this beautiful programme also features a composition by Gwenllian, together with other evocative works.

## THE CHOIR OF KING'S COLLEGE LONDON (A)

**Saturday 24th September, 7pm**
**Holy Cross Parish Church**

The Choir of King's College London (directed by Joseph Fort) makes its debut at the festival, with a performance of Rachmaninoff's much loved All-Night Vigil, better known as the 'Vespers'. With a recent recording described as 'a performance of astonishing intensity and musicality' (Gramophone), this promises to be a moving performance.

## CHILDREN'S MUSICAL ADVENTURES - FAMILY CONCERT (D)

**Sunday 25th September, 11am**
**Cowbridge Comprehensive School**

Cowbridge Music Festival teams up once again with Children's Musical Adventures to present an interactive musical extravaganza. This year, children aged three to twelve years old and their families will join Merlin as he ventures across the countries that make up the United Kingdom in search of the missing Welsh song. Meet dragons, legends and more, and experience live traditional music. Musical fun for all the family!

## FESTIVAL EVENSONG (E)

**Sunday 25th September, 5pm**
**Holy Cross Parish Church**

In a new event for 2022, we celebrate the conclusion of this year's festival with a Choral Evensong in Holy Cross Parish Church. All are very welcome at this service, which will feature much-loved Welsh hymns and several choral treasures from the Anglican tradition, and which will be led by members of the Choir of King's College London.

## THE DARIUS BRUBECK QUARTET (A)

**Sunday 25th September, 7.30pm**
**Cowbridge Comprehensive School**

Sponsored by Sugarbush Trust

This 2022 festival is brought to a rousing close by the Darius Brubeck Quartet. 'The chemistry of this quartet has to be seen live to be appreciated . . . this band never fails to delight' (Jazz Journal). With varied selections ranging from cowboy songs to the blues, this jazz quartet will present an exhilarating programme of music for this year's festival finale.

# RHAGLEN GŴYL GERDD Y BONT-FAEN 2022

## THE URIPOSTE JUKEBOX (A)

**Nos Wener 16 Medi, 7pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Noddir gan Cowbridge Travel

Bydd gŵyl 2022 yn agor gyda Tom Poster ac Elena Urioste, enillwyr Gwobr Ysbrydoliaeth y Gymdeithas Ffilharmonig Frenhinol a Phrif Wobr BBC Music Magazine. Bydd y ddeuawd yn cyflwyno'u detholiad eclectig nodweddiadol o gerddoriaeth, o weithiau gan Mozart a Fauré i drefniannau Tom o ganeuon poblogaidd yr 80au!

## YNG NGOLAU CANNWYLL: LAURA VAN DER HEIJDEN (B)

**Dydd Gwener 16 Medi, 9.30pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Ers ennill Cerddor Ifanc y Flwyddyn y BBC yn 2012, mae'r sielydd Laura van der Heijden wedi gwneud enw iddi'i hun fel un o chwaraewyr mwyaf cyffrous ei chenhedlaeth ar y sielo. Yn y cyngerdd hwn bydd yn perfformio un o hoff gyfresi Bach i sielo ar ei ben ei hun, ynghyd â gweithiau gan Imogen Holst a Coleridge-Taylor Perkinson.

## KIZZY CRAWFORD (C)

**Dydd Sadwrn 17 Medi, 5pm**
**Yr Eglwys Unedig Rydd**

Mae jazz soul gwerinol unigryw Kizzy Crawford wedi cael sylw ar BBC Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 a Radio Cymru, ac wedi cael ei ganmol yn helaeth. Bydd Kizzy, sydd o dras Baja, ac yn siarad Cymraeg, yn canu yn Gymraeg a Saesneg, ac yn perfformio rhai o'i gweithiau mwyaf poblogaidd.

## CYNULLIAD SIAMBR KALEIDOSCOPE (A)

**Nos Sadwrn 17 Medi, 7pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Cynulliad Siambr Kaleidoscope yw'r Ensemble Cysylltiol yn Neuadd Wigmore, ac mae'r ensemble yma o gerddorion ifanc disglair, a ddisgrifiwyd fel rhai 'sparky, shape-shifting' (TheArtsDesk), yn cyflwyno rhaglen sy'n cyfuno pedwarawdau piano enwog gan Mozart a Dvořák â gweithiau cyffrous gan Fanny Mendelssohn ac Errolyn Wallen.

## LLŶR WILLIAMS (A)

**Dydd Sul 18 Medi, 5pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Noddir gan Trosiadau Twt

Yn 1922, ymddangosodd Béla Bartók fel pianydd am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig – nid yn un o neuaddau cyngerdd enwog Llundain, ond yn Neuadd y Plwyf, Aberystwyth. Bydd y pianydd hoff o Gymru, Llŷr Williams, yn dychwelyd i'r Bont-faen eleni gyda rhaglen sy'n dathlu canmlwyddiant y digwyddiad hwn, ac yn cyplysu nifer o weithiau Bartók â cherddoriaeth gan Chopin, Grieg, Liszt ac eraill.

## CERDDORIAETH O AFFGANISTAN (C)

**Nos Mercher 21 Medi, 7.30pm**
**Neuadd Tref y Bont-faen**

Bydd Saphwat Simab a Shahbaz Hussain yn cyflwyno rhaglen hudol, a fydd yn eich cyffwrdd, gan arddangos cerddoriaeth o Affganistan. Mae'r cerddorion blaenllaw hyn wedi derbyn canmoliaeth fawr i'w perfformiadau ar draws y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a heno byddant yn dod i'r Bont-faen am y tro cyntaf.

## CHARLIE LOVELL-JONES AC ARIEL LANYI – DATGANIAD ARTISTIAID IFANC (B)

**Nos Iau 23 Medi, 7.30pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Noddir gan Cowbridge Rotary

Mae Datganiad Artistiaid Ifanc eleni yn cyfuno dau berfformiwr dawnus y mae eu sêr yn esgyn – y fiolinydd o Gymru Charlie Lovell-Jones a'r pianydd Ariel Lanyi, a aned yn Israel. Bydd y ddau ohonynt yn perfformio rhaglen gyfoethog o sonatâu gan Grieg, Debussy a Beethoven, ynghyd â rhai darnau byr gan Sibelius a threfniant Charlie ei hun o Bugeilio'r Gwenith Gwyn.

## NATALYA ROMANIW A MICHAEL POLLOCK (A)

**Nos Wener 23 Medi, 7pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Noddir gan Richard H. Powell and Partners Limited

Bydd y soprano o Gymru ac Wcráin, Natalya Romaniw, a'r pianydd Michael Pollock yn dod at ei gilydd berfformio caneuon o'r galon gan Dvořák, Grieg, Strauss, Rachmaninoff ac eraill. Cyfeiriwyd at Natalya Romaniw fel 'soprano neilltuol ei chenhedlaeth' (The Telegraph), ac mae hi'n perfformio ar draws y byd; ar gyfer y cyngerdd hwn mae hi'n dychwelyd i Gymru i berfformio yn y Bont-faen am y tro cyntaf.

## YNG NGOLAU CANNWYLL: GWENLLIAN LLŶR (B)

**Nos Wener 23 Medi, 9.30pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Noddir gan Tŷ Cerdd

Ar gyfer y datganiad agos atoch hwn, yng ngolau cannwyll, bydd y delynores o Gymru Gwenllian Llŷr yn perfformio nifer o weithiau o'i recordiad newydd 'Soliloquy'. Yn ogystal ag alawon gwerin o Gymru, bydd y rhaglen brydferth hon hefyd yn cynnwys cyfansoddiad gan Gwenllian, ynghyd â gweithiau eraill fydd yn cyffroi'r emosiynau.

## CÔR COLEG Y BRENIN, LLUNDAIN (A)

**Nos Sadwrn 24 Medi, 7pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Bydd Côr Coleg y Brenin Llundain (dan gyfarwyddyd Joseph Fort) yn dod i'r ŵyl am y tro cyntaf, gyda pherfformiad o waith hynod boblogaidd Rachmaninoff, ei Wylnos Gydol Nos, neu fel y'i gelwir yn amlach, y 'Gosber'. Disgrifiwyd recordiad diweddar fel 'perfformiad rhyfeddol ei ddwyster a'i ddawn gerddorol' (Gramophone), felly rydym ni'n disgwyl i'r perfformiad eich cyffwrdd.

## CHILDREN'S MUSICAL ADVENTURES – CYNGERDD TEULU (D)

**Dydd Sul 25 Medi, 11am**
**Ysgol Gyfun y Bont-faen**

Bydd Gŵyl Gerddoriaeth y Bont-faen yn cydweithio â Children's Musical Adventures unwaith yn rhagor, i gyflwyno strafagansa gerddorol ryngweithiol. Eleni, bydd plant 3-12 oed a'u teuluoedd yn ymuno â Myrddin wrth iddo fentro ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig i chwilio am y gân Gymraeg goll. Cewch gyfle i gwrdd â dreigiau, cymeriadau chwedlonol a mwy, a phrofi cerddoriaeth draddodiadol fyw. Hwyl gerddorol i'r teulu cyfan!

## HWYROL WEDDI'R ŴYL (E)

**Nos Sul 25 Medi, 5pm**
**Eglwys y Groes Sanctaidd**

Mewn digwyddiad newydd ar gyfer 2022, byddwn ni'n dathlu diweddglo'r ŵyl eleni â Hwyrol Weddi Corawl yn Eglwys y Groes Sanctaidd. Mae croeso mawr i bawb i'r gwasanaeth hwn, a fydd yn cynnwys rhai ffefrynnau o emynyddiaeth Cymru a nifer o drysorau corawl o'r traddodiad Anglicanaidd, dan arweiniad aelodau o Gôr Coleg y Brenin, Llundain.

## PEDWARAWD DARIUS BRUBECK (A)

**Nos Sul 25 Medi, 7.30pm**
**Ysgol Gyfun y Bont-faen**

Noddir gan Sugarbush Trust

Bydd gŵyl 2022 yn cael ei chloi mewn steil gan Bedwarawd Darius Brubeck. 'Mae'n rhaid gweld y pedwarawd hwn yn fyw i werthfawrogi cemeg eu perthynas… fydd y band yma byth yn methu â llonni eich calon' (Jazz Journal). Gyda detholiadau amrywiol o ganeuon cowboi i'r 'blues', bydd y pedwarawd jazz hwn yn cyflwyno rhaglen egnïol o gerddoriaeth yn ddiweddglo i'r ŵyl eleni.





## TICKETS

A. £20 FRONT SEATS, £15 NAVE PEWS/SIDES,
£1 CHILDREN & STUDENTS

B. £15 FRONT SEATS, £12 NAVE PEWS,
£1 CHILDREN & STUDENTS

C. £15, £1 CHILDREN & STUDENTS

D. £12, £1 CHILDREN &STUDENTS

E. FREE ADMISSION

Plus a small booking fee.

Tickets go on sale on 1st August and are available via the festival website or by phone on 0333 666 4466.

## TOCYNNAU

A. £20 SEDDAU BLAEN, £15 CWEIRIAU'R GANGELL/
OCHRAU, £1 PLANT A MYFYRWYR

B. £15 SEDDAU BLAEN, £12 CWEIRIAU'R GANGELL,
£1 PLANT A MYFYRWYR

C. £15, £1 PLANT A MYFYRWYR

D. £12, £1 PLANT A MYFYRWYR

E. MYNEDIAD AM DDIM

Plws ffi archebu fechan.

Bydd tocynnau ar werth o 1 Awst, ac maent ar gael trwy wefan yr ŵyl neu drwy ffonio 0333 666 4466.

COWBRIDGE
MUSIC FESTIVAL
FRINGE

### Including free Festival Fringe events for all the family!

The programme will be announced shortly on the festival website.

GŴYL GERDD
Y BONT-FAEN
AR Y
CYRION

### Yn cynnwys digwyddiadau am ddim Ar y Cyrion i'r teulu cyfan!

Cyhoeddir y rhaglen yn fuan ar wefan yr ŵyl.

## CONTACT

T: 0333 666 4466 (for ticket purchases)
T: 07970 659167 (for all other enquires)
E: hello@cowbridgemusicfestival.co.uk

For further information please visit:
www.cowbridgemusicfestival.co.uk

## CYSYLLTU

Ff: 0333 666 4466 (i brynu tocynnau)
Ff: 07970 659167 (gydag unrhyw ymholiadau eraill)
E: hello@cowbridgemusicfestival.co.uk

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
www.cowbridgemusicfestival.co.uk

Design/Dylunio: Savage and Gray Design Ltd 01446 771 732


powell. creating working environments
SAVAGE & GRAY DESIGN
harcourt colour print
THE MARY HOMFRAY CHARITABLE TRUST
JCP Solicitors
THE SUGARBUSH TRUST
THE BEAR
THE SIMON GIBSON CHARITABLE TRUST
THE LECHE TRUST
the waterloo foundation
idy ranslations
OXFORD WINE
TOWN & COUNTRY
Tŷ Cerdd
COWBRIDGE TRAVEL
Cowbridge Rotary
WILLIAMS CHURCH MUSIC TRUST
CARDIFF VIOLINS Ltd
COLWINSTON CHARITABLE TRUST
COWBRIDGE INSTITUTE EDUCATIONAL TRUST
INTO IT
COWBRIDGE WITH LLANBLETHIAN UNITED CHARITIES
Monmouthshire Building Society
WATTS & MORGAN
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Arts & Business Cymru